2019-2029

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# STRATEGAETH CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL 2019-2029



Man gwyrddach ar gyfer chwaraeon a dull byw gweithredol
A greener place for sport and active lifestyles

Caerphilly County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | **2** |
| DIBEN, EGWYDDORION A BLAENORIAETHAU'R STRATEGAETH | **5** |
| ADOLYGIAD O'R HYN A WYDDOM – LLYWIO PENDERFYNIADAU'R DYFODOL | **15** |
| HERIAU MAWR I'W GORESGYN | **23** |
| YR HYN Y MAE ANGEN EI WNEUD | **31** |




# CYFLWYNIAD

## CYFLWYNO'R STRATEGAETH HON A'I DIBEN ARFAETHEDIG

- Mae'r strategaeth hon yn pennu pwrpas a chyfeiriad y ddarpariaeth chwaraeon a hamdden egnïol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili – mae'n pennu'r weledigaeth a'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i benderfyniadau a chamau gweithredu yn y dyfodol.
- Lle bo angen, bydd y broses o roi'r strategaeth ar waith yn cael ei chefnogi gan waith ymgynghori a chyfathrebu manylach, yn ogystal ag achosion busnes i'w gweithredu i ategu adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu perthnasol, y Cabinet a/neu'r Cyngor Llawn.

## BETH YW CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL?

Mae'r diffiniad o Chwaraeon a Hamdden Egnïol mewn perthynas â'r strategaeth hon yn seiliedig ar yr amrywiaeth o gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ar y cyd â'n partneriaid allweddol.

## Y RHESYMEG DROS Y STRATEGAETH

- 'Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cychwyn ar daith gyffrous ond heriol o wella a newid', Y Cynllun Corfforaethol (2018-2023).
- Er mwyn ateb heriau'r dyfodol, mae'n amlwg y bydd angen i ni wneud pethau'n wahanol – bod yn arloesol ac yn barod i ymaddasu ac ymateb i newid.
- Er mwyn bod yn llwyddiannus, rhaid i'r Cyngor ailddiffinio ei rôl unigryw, a hynny ar lefel sylfaenol, h.y. yr hyn yr ydym yn ei wneud, y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, a'r ffordd yr ydym yn eu darparu.
- Ni allwn mwyach wneud yr hyn yr ydym bob amser wedi'i wneud – byddwn yn canolbwyntio llai ar ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol, a mwy ar alluogi nifer o sefydliadau eraill sydd eisoes yn darparu cyfleoedd rhagorol yn ein cymunedau.

**Er mwyn bod yn llwyddiannus, rhaid i'r Cyngor ailddiffinio ei rôl unigryw, a hynny ar lefel sylfaenol, h.y. yr hyn yr ydym yn ei wneud, y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, a'r ffordd yr ydym yn eu darparu.**

## RHOI DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) AR WAITH

- Bydd angen i ni fod yn feiddgar – rhoi'r gorau i wneud yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn y gorffennol ac edrych i'r dyfodol, er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud a'r cyfleoedd yr ydym yn eu cynnig yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – ymateb i anghenion newydd ein pobl ifanc ac oedolion yfory, ac, wrth gwrs, gofalu am anghenion gwahanol poblogaeth hŷn sy'n cynyddu.
- Rhaid i ni hefyd sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei ddarparu yn gynaliadwy, h.y. y gallwn fforddio cynnal y gwasanaeth yn y dyfodol.
- Bydd dulliau gweithredu yn y dyfodol yn golygu bod yn rhaid i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain, yn ogystal â'u lefelau o weithgarwch corfforol. Rôl y Cyngor yw eu cefnogi i wneud hyn drostynt eu hunain.
- Er mwyn cyflawni 'agenda newid', bydd yn rhaid i'r Cyngor hefyd wneud nifer o benderfyniadau allweddol. Felly, mae'n hollbwysig bod y strategaeth hon yn cynnwys rhesymeg a blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu. Rhaid iddi bennu gweledigaeth ar gyfer yr hyn yr ydym am ei gyflawni a'r ffordd y byddwn yn gwneud hynny, fel bod pawb yn deall yr hyn sy'n bosibl, beth i'w ddisgwyl gennym, yn ogystal â'r rolau sydd gan eraill i'w chwarae.
- Yn olaf, nid yw'r strategaeth yn canolbwyntio ar adeiladau yn unig, ond ar y gweithgareddau y gellir eu cynnal mewn amrywiaeth eang o leoedd ar hyd a lled ein Bwrdeistref Sirol, a hynny o ganlyniad i nifer o gyfleoedd gwahanol a ddarperir gan amrywiaeth o sefydliadau.

**Bydd dulliau gweithredu yn y dyfodol yn golygu bod yn rhaid i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain, yn ogystal â'u lefelau o weithgarwch corfforol.**



## Y FFORMAT

Wrth lunio'r strategaeth hon, rydym wedi:

1. Datgan yr hyn y mae angen i ni ei gyflawni, sef ein diben craidd, h.y. y blaenoriaethau ar gyfer gwella iechyd a lles sydd wedi'u pennu yn ein Cynllun Corfforaethol (2018-2023).

2. Adolygu'r canlynol:
   a. Ein cymunedau a'u hanghenion – yr hyn a wyddom am ein poblogaeth, lle'r ydym yn byw, y ddarpariaeth gyfredol;
   b. Y gwersi a ddysgwyd o'n cyflawniadau, adeiladu ar yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda, ac ystyried barn pobl eraill;
   c. Yr hyn a wyddom am dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac anghenion yn y dyfodol.

3. Y prif heriau:
   a. Iechyd gwael, yn arbennig mewn ardaloedd penodol o'r sir;
   b. Cyllidebau sy'n lleihau;
   c. Nifer mawr y cyfleusterau ledled y Sir a chyflwr ein hadeiladau hŷn, sy'n gwaethygu;
   d. Poblogaeth sy'n cynyddu a mwy o alw gan ddefnyddwyr

4. Y camau gweithredu - yr hyn y mae angen ei wneud.





# DIBEN, EGWYDDORION A BLAENORIAETHAU'R STRATEGAETH

## EIN GWELEDIGAETH A'R FFORDD Y BYDDWN YN EI GWIREDDU

- Ein gweledigaeth ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol yw annog dulliau byw iachus a chefnogi ein preswylwyr i fod yn fwy egnïol, yn fwy aml.
- Byddwn yn gwneud hyn trwy annog cydgyfrifoldeb a chamau gweithredu ar y cyd i gynnig cyfleoedd priodol mewn amrywiaeth eang o sefydliadau, a hyrwyddo'r cyfleoedd hynny.
- Byddwn yn cefnogi eraill a dim ond yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol pan fydd yr angen wedi'i nodi'n glir a lle nad oes gan neb yr arbenigedd na'r gallu i:
  - Hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am iechyd a gweithgarwch corfforol;
  - Annog gweithgarwch corfforol trwy gynnig cyfleoedd amrywiol, deniadol a hygyrch;
  - Codi safonau perfformiad a dathlu llwyddiannau lleol ym myd chwaraeon.

**'Ein gweledigaeth ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol yw annog dulliau byw iachus a chefnogi ein preswylwyr i fod yn fwy egnïol, yn fwy aml'**



## RÔL EIN GWASANAETH CYMUNEDOL A HAMDDEN

- Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae ein Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden yn gyfrifol am arwain y gwaith o hyrwyddo chwaraeon a hamdden egnïol. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am amrywiaeth eang o leoedd a gweithgareddau hamdden egnïol, gan gynnwys ardaloedd chwarae i blant; parciau gwledig a mannau agored; caeau chwarae; a chanolfannau hamdden – fel arfer ar safleoedd Ysgolion Uwchradd. Mae hefyd yn rheoli Gweithgareddau Antur Awyr Agored a gwaith Datblygu Chwaraeon, gan gynnwys gwasanaethau sy'n amrywio o atgyfeiriadau gan feddygon teulu i wneud ymarfer corff, i gymorth ar gyfer chwaraeon.
- Bydd y Gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn gallu canolbwyntio ar arwain a chydgysylltu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth hon yn y dyfodol.

**Bydd y Gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn gallu canolbwyntio ar arwain a chydgysylltu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth hon yn y dyfodol.**



## HELPU I GYFLAWNI NODAU CHWARAEON CYMRU



- Trwy'r Strategaeth hon, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hefyd yn cyfrannu at ganlyniadau chwaraeon cymunedol Chwaraeon Cymru, sef:
  - Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden egnïol yn rheolaidd;
  - Targedu anghydraddoldebau a rhwystrau i bobl gymryd rhan;
  - Cynnig cyfleoedd o ansawdd uchel, gan alluogi ein hathletwyr mwyaf talentog i wireddu eu potensial.



## SICRHAU LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- Mae cyfleoedd clir i gydweithio rhwng y Strategaeth hon a Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili, Y Gaerffili a Garem. Mae ein hamgylchedd lled-wledig yn ased sylweddol, gyda'r Cynllun Lles yn ceisio cynyddu'r cyfraniad y mae ein hamgylchedd yn ei wneud i iechyd a lles drwy ddarparu mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd da. Mae'r Cynllun Lles hefyd yn ceisio helpu trigolion i reoli eu lles corfforol a meddyliol eu hunain drwy greu amgylcheddau cefnogol i wneud hyn. Mae gweithio mewn partneriaeth â gweddill y sector cyhoeddus wedi'i gysylltu'n hanfodol â sut y byddwn yn darparu chwaraeon a hamdden egnïol.
- Yn ei hanfod, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd cyfrifol a chynaliadwy - bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ystyried effaith fwy hirdymor y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.
- Bydd angen i'r penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn y dyfodol arwain at ddatblygiadau cynaliadwy i sicrhau lles, a hynny trwy:
  - Ganolbwyntio ar sicrhau darpariaeth gynaliadwy i ddiwallu anghenion mwy hirdymor cenedlaethau'r dyfodol – nad yw'n seiliedig ar y gorffennol;
  - Deall achosion sylfaenol materion er mwyn atal problemau rhag digwydd;
  - Cynnwys/ystyried amrywiaeth ein poblogaeth a'n cymunedau wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
  - Gweithio mwy gydag eraill i sicrhau darpariaeth ac atebion cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.



**Bydd angen i'r penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn y dyfodol arwain at ddatblygiadau cynaliadwy i sicrhau lles...**

## NID YW CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL YN 'OFYNIAD' STATUDOL

- Nid yw'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddarparu'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau chwaraeon a hamdden egnïol – nid yw'n gyfrifoldeb statudol. Felly, mae'n rhaid i'r achos dros y ddarpariaeth ddewisol hon – cynnal a chadw ein cyfleusterau a'n gwasanaethau – gael ei fesur ar sail ei heffaith gadarnhaol ar ein blaenoriaethau corfforaethol, sef iechyd, adfywio, addysg, a fforddiadwyedd ar gyfer y dyfodol.
- Felly, diben y Strategaeth hon yw cynnig gweledigaeth a rhesymeg ar gyfer y dyfodol sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag Amcanion Llesiant y Cyngor, yn ogystal â'i flaenoriaethau strategol, sydd wedi'u pennu yn y Cynllun Corfforaethol (2018-2023).

**Diben y Strategaeth hon yw cynnig gweledigaeth a rhesymeg ar gyfer y dyfodol.**



## Y BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL AR GYFER CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL

- Dyma'r prif Amcanion Llesiant, a bennir yn y Cynllun Corfforaethol, y mae chwaraeon a hamdden egnïol yn cyfrannu atynt.
  - Amcan 1: Gwella cyfleoedd addysg i bawb, a gwella'r amgylchedd dysgu;
  - Amcan 5: Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi dull byw iachus ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled y Fwrdeistref Sirol, a hynny yn unol ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
  - Amcan 6: Cefnogi dinasyddion i barhau'n annibynnol ac i wella eu lles – helpu pobl hŷn i barhau i fod yn rhan weithredol o'u cymunedau lleol.

**Amcan Corfforaethol 1: Gwell amgylcheddau dysgu a chyrhaeddiad addysgol**

- Nid yn unig y mae iechyd a lles yn helpu i sicrhau cyrhaeddiad addysgol uwch, mae pobl ifanc iach yn fwy tebygol o fod yn oedolion iach.
- Byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion er mwyn helpu i gynnig cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ysbrydoledig, addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac i annog ymrwymiad i dduliau byw iachus a fydd yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn tyfu i fod yn oedolion mwy egnïol.
- Yng ngham cyntaf ein Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (2014-2019), rydym wedi buddsoddi dros £56 miliwn mewn ysgolion i wella'r cyfleusterau, (gan gynnwys Ysgol Uwch newydd Islwyn i ddisodli Ysgolion Gyfun Pontllan-fraith ac Oakdale, ac Ysgol Cyfrwng Cymraeg y Gwyndy) - mae hyn yn cynnwys mannau chwaraeon a gweithgareddau hamdden newydd – sydd ar gael at ddefnydd y gymuned.
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu dulliau gweithredu llwyddiannus i hyrwyddo defnydd cymunedol o holl gyfleusterau'r ysgolion. Pa un a yw cyfleusterau ein hysgolion uwchradd yn rhan o Ganolfan Hamdden ai peidio, byddwn yn disgwyl iddynt sicrhau eu bod ar gael at ddefnydd y gymuned y tu allan i oriau ysgol, ac yn eu cefnogi i wneud hynny. Byddwn yn disgwyl gwasanaeth o safon deg, ni waeth a yw defnydd y gymuned o'r cyfleusterau yn cael ei reoli gan y Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden neu'r ysgol.

**Nid yn unig y mae iechyd a lles yn helpu i sicrhau cyrhaeddiad addysgol uwch, mae pobl ifanc iach yn fwy tebygol o fod yn oedolion iach.**

**Amcan Corfforaethol 5: Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi dull byw iachus**

- Creu lle sy'n cefnogi dull byw iachus, gan helpu i annog pobl i fod yn fwy corfforol egnïol, a thrwy hynny, ostwng cyfraddau gorbwysedd a gordewdra ymhlith plant.
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled y Fwrdeistref Sirol:
  - Byddwn yn creu partneriaeth gefnogol â'n hysgolion, gan sicrhau ymrwymiad o'r brig (Penaethiaid a Llywodraethwyr) a ledled yr ysgol, er mwyn cymell ac ysgogi'r holl blant i fod yn gorfforol egnïol o ddewis;
  - Byddwn yn annog gweithgarwch corfforol yn ein cymunedau yn y ffyrdd mwyaf priodol ac effeithiol, a hynny trwy gynnig cefnogaeth sy'n estyn allan ac yn cydweithio ag eraill, neu trwy raglenni ymyrraeth penodol sy'n targedu cymunedau – er mwyn creu cyfleoedd cefnogol, croesawgar, deniadol a hygyrch ar gyfer gweithgarwch corfforol;
  - Byddwn yn anelu at gynyddu nifer yr ymweliadau â'r holl fannau chwaraeon a hamdden egnïol ledled y Fwrdeistref Sirol – pa un a ydynt yn ganolfannau cymunedol, ysgolion cynradd/uwchradd, parciau, ardaloedd cefn gwlad, caeau chwaraeon, neu ganolfannau hamdden strategol sy'n eiddo i ni. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn modd targededig lle mae yna achos busnes amlwg dros wella'r cyfleoedd a gynigir, fel ein bod yn ymateb i'r ardaloedd lle mae'r angen a'r galw mwyaf ac yn estyn allan i'r niferoedd mwyaf o gyfranogwyr newydd, h.y. yn targedu gweithgareddau y gwyddom eu bod yn boblogaidd, er enghraifft ffitrwydd, pêl-droed pump bob ochr, beicio, cerdded, loncian, gweithgareddau dawnsio, ac ati.

**Amcan Corfforaethol 6: Cefnogi dinasyddion i gynnal eu hannibyniaeth ac i wella eu lles**

- Helpu grwpiau a chlybiau cymunedol i ddenu 'oedolion hŷn' i wirfoddoli, a chefnogi pobl hŷn i fyw bywydau annibynnol, corfforol egnïol ac iach – gan ysgogi  lles meddwl yn ogystal â chynnal lefelau priodol o ran gweithgarwch corfforol, cryfder y corff a symudedd.
- Byddwn yn gweithio gyda chymunedau a grwpiau lleol i gefnogi ymyraethau sy'n helpu i gadw pobl hŷn yn egnïol ac yn rhan o'u cymunedau lleol.

**Byddwn yn gweithio gyda chymunedau a grwpiau lleol i gefnogi ymyraethau sy'n helpu i gadw pobl hŷn yn egnïol ac yn rhan o'u cymunedau lleol.**



## CRYNODEB O DDIBEN Y STRATEGAETH



### Ein Canlyniad Allweddol Cyntaf: Gwell Iechyd

- Rhaid i ni greu gwlad iachach, gan gydnabod y gallai preswylwyr afiach heddiw fod yn gwsmeriaid ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yfory. Ein nod hirdymor yw sicrhau preswylwyr a chymunedau iachach, ond rydym yn cydnabod y bydd angen mwy na chenhedlaeth o newid – dros ugain mlynedd. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ariannol difrifol, rhaid i ni hefyd greu Bwrdeistref iachach gyda llai o adnoddau, felly bydd yn rhaid i ni weithio mewn ffordd ddarbodus.

- **Byddwn yn cyflawni ein gwell canlyniadau iechyd trwy:**
  - Ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol i ddewis mabwysiadu dulliau byw iachus o'u gwirfodd – dyma fydd y cyfraniad mwyaf at newid dros y cenedlaethau;
  - Cefnogi ac annog mwy o gyfleoedd ar gyfer rhagor o weithgareddau hamdden egnïol yn ein cymunedau a'n gweithleoedd, a hynny trwy weithio gydag amrywiaeth eang o ddarparwyr eraill ac annog mwy o ddefnydd o'r awyr agored;
  - Ymyraethau arbenigol, e.e. atgyfeiriadau i wneud ymarfer corff, gwaith allgymorth sy'n defnyddio gweithgarwch corfforol i wella bywydau grwpiau blaenoriaeth, gan alluogi pobl i ddilyn dulliau byw iachach yn ddyddiol yn eu cymunedau lleol. Fodd bynnag, dim ond lle bo tystiolaeth o angen a diffyg ateb arall y bydd yr ymyraethau hyn yn cael eu targedu.

### Ein Hail Ganlyniad Allweddol: Cymunedau Iachach a Ffyniannus

- Mae hyn yn golygu mannau cryfach, diogelach a gwell i fyw a gweithio ynddynt, yn ogystal ag i ymweld â nhw, a hynny i bawb – cymunedau ag ymdeimlad o falchder a hunaniaeth.
- Mae'r weledigaeth hon yn cynnwys:
  - Clybiau chwaraeon lleol llwyddiannus wrth wraidd pob cymuned; cynnal cyfleusterau lleol, yn ogystal â'r amgylchedd lleol; darparu gweithgareddau chwaraeon a gweithgarwch corfforol; rheoli digwyddiadau; denu pobl ifanc; ennyn diddordeb gwirfoddolwyr; creu lleoedd diogelach a mwy cymdeithasol gydlynus i fyw a gweithio ynddynt; helpu pobl hŷn i barhau i fod yn rhan weithredol o'u cymunedau lleol; cefnogi a hyrwyddo llwyddiant ym myd y campau, sydd, yn ei dro, yn creu modelau rôl, balchder cymunedol ac ymdeimlad o lesiant a phositifrwydd.

- Mewn cytrefi a chyrchfannau mawr i ymwelwyr, gall atyniadau hamdden masnachol hefyd ysgogi adfywiad, gan greu lle gwell i fyw a gweithio ynddo, denu cyflogwyr a busnesau, a chreu swyddi, e.e. yng Ngogledd Cymru, bydd atyniad hamdden a pharc dŵr newydd yng nghyrchfan arfordirol y Rhyl yn denu dros 350,000 o ymwelwyr, yn ogystal â gwasanaethu dros 40,000 o drigolion lleol; neu, yn Abertawe, mae LC2 yn denu dros 750,000 o bobl y flwyddyn – y gyrchfan fwyaf poblogaidd yng Nghymru am y saith mlynedd diwethaf ymysg y cyrchfannau hynny sy'n codi tâl. Mae ein Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon, a ddefnyddir gan Goleg y Cymoedd, Undeb Rygbi Cymru a'r Dreigiau, yn cynnig cyfleuster chwaraeon rhanbarthol arbenigol o'r radd flaenaf, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal, cefnogi llwyddiannau ym myd y campau, ac ysgogi balchder lleol.
- **Byddwn yn hybu Cymunedau Iachach a Ffyniannus trwy:**
  - Gweithio gyda chlybiau chwaraeon cymunedol a'u cyrff llywodraethu i helpu ein clybiau i dyfu, cryfhau a bod yn fwy cynaladwy, gan eu helpu i wella eu cyfleusterau, annog mwy o wirfoddolwyr, a chreu rhagor o gyfleoedd chwaraeon er mwyn sicrhau cyfranogiad a llwyddiant;
  - Adolygu'r achos busnes masnachol a'r opsiynau ar gyfer atyniad hamdden newydd neu well ym Masn Caerffili, a hynny er mwyn ystyried y twf mewn cartrefi newydd a chefnogi ein hamcanion adfywio economaidd ar gyfer yr ardal.
  - Ymgysylltu â phlant cyn-ysgol drwy 'Community Tots' yn seiliedig ar sgiliau symud sylfaenol a threialu cynnig hyfforddiant cyn-ysgol i ddarparwyr cyhoeddus a phreifat i wella sgiliau eu gweithluoedd.

**Ein Trydydd Canlyniad Allweddol: Sicrhau cyfleoedd mwy effeithlon ac ariannol gynaliadwy yn y dyfodol**

- Yn ogystal â'n dyhead i greu Bwrdeistref Sirol iachach, mwy corfforol egnïol, a llwyddiannus ym myd y campau, ac i gau'r bwlch rhwng y gogledd a'r de o ran disgwyliad oes cyfartalog ein preswylwyr, mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau arbedion ariannol a chyflawni'r canlyniadau cadarnhaol hyn gydag adnoddau sy'n crebachu'n gynyddol. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gymryd camau darbodus, ac iddynt ffocws pendant, yn y dyfodol.
- **Byddwn yn sicrhau cyfleoedd mwy effeithlon ac ariannol gynaliadwy trwy:**
  - fanteisio i'r eithaf ar ein hamwynderau cymunedol a'n hamgylchedd lleol, gan annog pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain mewn ffordd gynaliadwy. Byddwn yn mynd ati i adeiladu ar gryfderau ein cymunedau, gan gydnabod bod pob cymuned yn wahanol, ac nad yw'n fforddiadwy nac yn gynaliadwy disgwyl i'r Cyngor barhau i ddarparu'r un gwasanaeth;

**Mae ein Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon, a ddefnyddir gan Goleg y Cymoedd, Undeb Rygbi Cymru a'r Dreigiau, yn cynnig cyfleuster chwaraeon rhanbarthol arbenigol o'r radd flaenaf...**

- Manteisio i'r eithaf ar asedau trwy gydleoli, trwy fodelau buddsoddi i arbed, a thrwy geisio lleihau lefelau cymorthdaliadau yn ein canolfannau hamdden strategol i lai na £1-£1.20 y pen;
- Creu cyfleusterau mwy cynaliadwy trwy wella cytundebau defnydd ysgolion; buddsoddi mewn cyfleusterau strategol mwy deniadol, gan arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr; a rhesymoli i leihau costau rhedeg cyffredinol;
- Canolbwyntio ein rôl unigryw a hanfodol ar ddarparu ymyraethau arbenigol mewn cymunedau a chyda grwpiau lle mae'r angen mwyaf, gan gydnabod a chefnogi rôl eraill wrth iddynt ddarparu cyfleoedd;
- Bydd cymell pobl ifanc yn flaenoriaeth allweddol wrth i ni gydweithio ag eraill i flaenoriaethu gweithgarwch corfforol am oes – a chreu oedolion mwy egnïol – gan gomisiynu a chefnogi ein hysgolion i ddarparu'r amgylchedd dysgu cywir gan sicrhau bod cyfleusterau hefyd ar gael ar gyfer gweithgareddau cymunedol ar adegau priodol.
- Lle bo yna achos busnes, byddwn yn buddsoddi mewn cyfleusterau strategol allweddol i sicrhau eu bod yn briodol, yn ddeniadol, yn ysbrydoledig, ac yn gyfleus ar gyfer dulliau byw, a hynny ochr yn ochr â gweithio i sicrhau bod yr holl amwynderau cymunedol yn cael yr effaith fwyaf posibl:
- Yn olaf, byddwn yn sicrhau bod cyfleusterau strategol a weithredir gennym ni yn uniongyrchol yn cael y buddsoddiad rheolaidd sy'n ofynnol i sicrhau bod cyfarpar a chyfleusterau yn ddiogel, yn ymarferol, yn fodern ac yn ysbrydoledig.

**Bydd cymell pobl ifanc yn flaenoriaeth allweddol wrth i ni gydweithio ag eraill i flaenoriaethu gweithgarwch corfforol am oes.**



# ADOLYGIAD O'R HYN A WYDDOM - LLYWIO PENDERFYNIADAU'R DYFODOL

## DATHLU EIN CYFLAWNIADAU

- **Boddhad cwsmeriaid**
  - Yn ein hymgynghoriad hanner blynyddol, dywedodd dros 85% o'r preswylwyr eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau chwaraeon a hamdden a'r caeau chwarae, a dywedodd dros 90% ohonynt eu bod yn fodlon ar y parciau gwledig;
  - Mae ein sgôr boddhad cwsmeriaid yn 98%, sef 8% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig.
- **Perfformiad ein canolfannau hamdden**
  - Rydym wedi llwyddo i fuddsoddi yn rhai o'n cyfleusterau er mwyn gwella'r ddarpariaeth, e.e. ystafelloedd ffitrwydd newydd a chaeau 3G. Mae hyn wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr, ac mae gennym hefyd dros 150,000 o ddefnyddwyr Cerdyn Smart cofrestredig;
  - Rydym hefyd wedi parhau i gyflawni achrediad sicrwydd ansawdd Quest, achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol;
  - Fodd bynnag, er bod ein cymhorthdal ar gyfer canolfannau hamdden wedi lleihau dros £500,000 yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'n dal i gyfrif am fwy na 70% o'r gyllideb ar gyfer chwaraeon a hamdden, felly mae angen mynd i'r afael â pherfformiad a fforddiadwyedd ein canolfannau hamdden yn y dyfodol.
- **Ein parciau a'n hardaloedd awyr agored gwych**
  - Rydym wedi ennill statws y Faner Werdd ym mhump o'n parciau awyr agored, lle rydym yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ac yn creu man y gall pobl ei fwynhau;
  - Mae'n bwysig adeiladu ar y cryfderau hyn a manteisio ar y llu o fannau gwyrdd sydd ar gael i hybu lles;
  - Mae Anturiaethau Caerffili'n defnyddio'r awyr agored yn llwyddiannus i gefnogi'r Gwasanaeth Addysg a mentrau Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae'n gweithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd i wella perthnasoedd teuluol, sgiliau rhianta, hyder a hunan-barch, yn ogystal â darparu rhaglenni Gwobrau Dug Caeredin.

**Cynhelir mentrau Nofio am ddim ym mhob canolfan hamdden, ac mae nifer y rhai sy'n manteisio ar y mentrau hyn wedi cynyddu bob blwyddyn.**

- **Ein plant a'n pobl ifanc**
  - Mae 47% o blant ysgolion cynradd ac uwchradd sydd rhwng 7 a 16 oed yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol deirgwaith yr wythnos, ac, yn gyffredinol, gwelwyd cynnydd bob blwyddyn yn nifer y plant sy'n cymryd rhan.
  - At ei gilydd, mae 57% o'r bobl ifanc 16 oed hefyd yn aelodau o glwb chwaraeon ym Mwrdeistref sirol Caerffili.
- **Mentrau a phartneriaethau datblygu chwaraeon**
  - Cynhelir mentrau Nofio rhad ac am ddim ym mhob canolfan hamdden, ac mae nifer y rhai sy'n manteisio ar y mentrau hyn wedi cynyddu bob blwyddyn;
  - Mae Ras 10 cilomedr Caerffili yn cael ei chynnal ers chwe blynedd bellach, gan ddenu tua 3,000 o redwyr, ac mae'n rhan o galendr rasys blynyddol Athletau Cymru;
  - Mae 1,000 o bobl yn elwa bob blwyddyn ar y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. Mae'r cynllun hwn yn targedu cleifion sydd â chlefyd cronig, neu sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd o'r fath, gan helpu i wella ansawdd eu bywyd, yn ogystal â'u disgwyliad oes;
  - Mae'r Cyngor yn chwarae rôl arweiniol yn rhaglen gydweithredol ranbarthol Active Gwent ar gyfer chwaraeon cymunedol, yn ogystal ag o ran hyrwyddo mentrau Dyfodol Cadarnhaol a Threchu Anghydraddoldebau – gan sicrhau budd i blant a phobl ifanc o gymunedau difreintiedig sy'n byw mewn tlodi ac yn cael eu cefnogi trwy raglen cynhwysiant sy'n defnyddio chwaraeon i ennyn diddordeb pobl ifanc – mae nifer y rhai sy'n cymryd rhan wedi cynyddu dros 1,200, i 9,000 yn 2017;
  - Mae'r fenter Milltir y Dydd wedi cael ei sefydlu yn ein Hysgolion Cynradd, ac yn helpu plant i wella eu ffitrwydd trwy gerdded neu redeg am 15 munud bob dydd yn ystod y diwrnod ysgol;
  - Rydym wedi cyfrannu at raglen gydweithredol, ar y cyd â Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent/Torfaen, i sicrhau newid ar raddfa fawr. Nod y rhaglen yw annog menywod i fod yn fwy egnïol er mwyn gwella canlyniadau iechyd yn ardal Blaenau'r Cymoedd, ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn, gan arwain at nifer o storïau llwyddiant a newidiadau o ran dull byw;
  - Mae cynyddu nifer y menywod a'r merched sy'n cymryd rhan yn arbennig o bwysig o ran sicrhau manteision iechyd, ac mae'r fenter, Dewch Ferched, yn annog darparwyr gweithgareddau a menywod sydd am gymryd rhan i gysylltu â'i gilydd.
- Gan adeiladu ar y cyflawniadau sylweddol hyn, mae'r Strategaeth hon yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a hynny er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus o amrywiaeth eang o gyfleoedd er budd iechyd a lles ein preswylwyr.

## BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI – LLE'R YDYM YN BYW

- Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ymestyn dros ardal ddaearyddol eang, ac yn cynnwys cymunedau lleol gwahanol iawn, yn rhai trefol, gwledig, cyfoethog, a difreintiedig iawn.
- Y pum prif ganol tref yw Caerffili; Coed Duon; Rhisga; Bargod; ac Ystrad Mynach.
- Ystyrir bod tua 80% o ardal y Fwrdeistref Sirol yn wledig, gydag amrywiaeth o fannau deniadol ar gyfer gweithgareddau awyr agored, h.y. ucheldiroedd, llynnoedd ac afonydd, hawliau tramwy cyhoeddus, parciau gwledig, gwarchodfeydd natur, a llawer o ardaloedd eraill y gellir eu defnyddio ar gyfer dulliau byw egnïol ac iach.
- Mae yna dros 500 o fannau gwahanol ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden ledled y fwrdeistref sirol, llawer ohonynt yn hen ac wedi treulio. Nid ydynt yn gosteffeithiol i'w rhedeg oherwydd bod y systemau gwresogi, y goleuadau a'r inswleiddio yn aneffeithlon, ac nid ydynt yn denu cyfranogwyr newydd nac yn addas i'r diben mwyach.

- **Edrych i'r Dyfodol**
  - Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar hyrwyddo'r amrywiaeth eang o gyfleoedd sy'n bodoli yn y fwrdeistref, yn ogystal ag mewn ardaloedd cyfagos;
  - Mae angen ymateb mewn ffyrdd gwahanol i anghenion gwahanol ac amrywiol iawn y cymunedau lleol, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau pennaf o ran iechyd a gweithgarwch corfforol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Blaenau'r Cymoedd;
  - Dylai'r pum canol tref a chanolfan poblogaeth fod wrth wraidd y ddarpariaeth strategol yn y dyfodol – teithio i gyrchfannau â chysylltiadau cludiant da. At hynny, dylai unrhyw ddarpariaethau chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol strategol fod yn rhai defnydd a rennir ar safleoedd addysgol. Maent yn ofyniad hanfodol ar gyfer gweithgareddau Cwricwlaidd ac Allgwricwlar, ac yn ffordd gosteffeithiol o ddarparu cyfleusterau costus sydd hefyd yn diwallu anghenion y gymuned;
  - Rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â'r seilwaith cyfleusterau cyfan gan y bydd angen rhesymoli a sicrhau arbedion cyn gwneud unrhyw fuddsoddiad i greu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau ein bod yn ariannu cyfleusterau addas i'r diben, mwy cynaliadwy, ac o well ansawdd mewn lleoliadau strategol.

**Mae angen ymateb mewn ffyrdd gwahanol i anghenion gwahanol ac amrywiol iawn y cymunedau lleol...**


# BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI... Y BOBL

## MAINT Y BOBLOGAETH

Mae **180,000** o bobl yn byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.




Dyma'r **5ed** awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru yn ôl poblogaeth.





Disgwylir i'r boblogaeth dyfu yn ystod yr **20** mlynedd nesaf nes bod **2,155** yn fwy o bobl yn byw yn yr ardal, ac, ochr yn ochr â hyn, mae tai ychwanegol wedi'u cynllunio, yn arbennig yn ne y fwrdeistref sirol, yn ardal basn Caerffili.

## IECHYD

Nid yw **74%** o'r oedolion yn y fwrdeistref sirol yn bodloni'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch corfforol. Mae canran yr oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew ym Mwrdeistref Sirol Caerffili **4%** yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef **59%**, ac erbyn **2050**, disgwylir y bydd **60%** o'r dynion, **50%** o'r menywod, a **25%** o'r plant yn ordew.





Mae gan y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig hefyd lefelau uwch o afiechyd, gyda'r disgwyliad oes yn amrywio'n fawr yn ôl lle mae'r bobl yn byw. O ran y disgwyliad oes iach ar gyfer dynion a menywod, mae yna fwlch o **13** blynedd ar gyfer dynion, a bron **14.6** mlynedd ar gyfer menywod, rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difrentiedig.




## PROFFIL OEDRAN


Disgwylir i nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed leihau dros yr 20 mlynedd nesaf, ond bydd nifer y bobl dros 65 oed yn cynyddu bron **42.2%** yn yr un cyfnod.




## PROFFIL ECONOMAIDD




**Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae ganddi'r bumed ganran uchaf o bobl sy'n hawlio budd-daliadau, a'r gydradd bumed gyfradd cyflogaeth isaf ymhlith pobl 16-64 oed, o'i chymharu â gweddill Cymru.**



- **Edrych i'r Dyfodol**
  - Mae angen rhoi blaenoriaeth i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd a lefelau gordewdra, gan ganolbwyntio ar atebion cymunedol ac ennyn diddordeb y bobl ifanc – cenedlaethau'r dyfodol;
  - Bydd poblogaeth sy'n newid ac yn cynyddu yn golygu bod angen lefelau priodol o ddarpariaeth i ateb y galw, a bydd datblygiadau tai newydd yn cynnig cyfleoedd i negodi enillion cynllunio i ddiwallu anghenion cymunedau yn y dyfodol – dylid defnyddio'r strategaeth chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol hon i gefnogi'r achos busnes dros y cynlluniau hyn;
  - Bydd yna angen cynyddol i ganolbwyntio ar helpu i gynnal dulliau byw annibynnol ymhlith poblogaeth sy'n heneiddio'n fwyfwy, ac sydd ag anghenion amrywiol.

**Bydd yna angen cynyddol i ganolbwyntio ar helpu i gynnal dulliau byw annibynnol...**



## PA WEITHGAREDDAU CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL YW'R UN MWYAF POBLOGAIDD?

- Mae pobl sy'n dilyn bywyd egnïol ac iach yn gwneud hynny trwy amrywiaeth eang o ffyrdd, gan wahaniaethu o arddio rhandir a gwaith tŷ i weithgareddau yn y gweithle, beicio i'r gwaith, cerdded i safle bws, nofio, cerdded y ci, ac ati.
- Yn ogystal â hyn, mae yna dros 87 o gampau a gweithgareddau corfforol i ddewis ohonynt, yn amrywio o ddawns, ioga, cleddyfaeth, amrywiaeth eang o grefftau ymladd, codi pwysau, gymnasteg, pysgota â gwialen, golff, i chwaraeon tîm, er enghraifft pêl-rwyd, rygbi a phêl-droed;
- Fodd bynnag, mae'r ffigurau mwyaf sylweddol o ran cyfranogiad ymhlith oedolion i'w priodoli i ymarfer corff unigol a gweithgareddau anffurfiol y gellir eu gwneud yn hawdd ac sy'n cyd-fynd â dull byw brysur - cerdded, beicio a loncian, neu fanteisio ar yr awyr agored, gan olygu mai nifer bach iawn o weithgareddau sy'n ddibynnol ar ein cyfleusterau adeiledig. Dyma'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd ymhlith oedolion:
  - cerdded - 47% o oedolion;
  - gweithgareddau ymarfer corff dan do - 21% o oedolion.
- Yr awyr agored - mae ein hadnoddau naturiol hefyd yn bwysig o ran annog dulliau byw iachach a mwy egnïol; gan hyrwyddo lles meddyliol yn ogystal â lles corfforol - mae 35% o oedolion wedi dweud y byddent yn hoffi gwneud mwy o weithgareddau egnïol yn amlach yn yr awyr agored, gyda'r amrywiaeth o weithgareddau'n dod yn fwyfwy amrywiol. Mae Parkrun yn enghraifft o hyn:
  - Parkrun i Blant - mae 44 o Blant (4-14 oed) yn cymryd rhan bob wythnos, o 15 o glybiau;
  - Parkrun (dros 14 oed) - mae 166 o Oedolion yn cymryd rhan bob wythnos o dros 203 o glybiau.

**Mae'r ffigurau mwyaf sylweddol o ran cyfranogiad ymhlith oedolion i'w priodoli i ymarfer corff unigol a gweithgareddau anffurfiol.**

### Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden y Dyfodol

- **Oedolion – Edrych i'r Dyfodol**
  - Mae 'Gweithredu Heddiw dros Yfory Egnïol', adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 gan Grŵp Cynghori Chwaraeon Cymru, yn nodi tueddiadau a fydd yn trawsnewid chwaraeon yng Nghymru. Mae'n nodi nifer o themâu y dylai darparwyr eu hystyried wrth lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol, h.y. yr angen i fod yn fwy ymatebol i:
    - Bobl sy'n byw bywydau prysur ac sydd â llai o amser, gan olygu bod arnynt angen mwy o weithgareddau ar garreg y drws;
    - Disgwyliadau uwch ymhlith y cwsmeriaid hynny y mae arnynt angen cyfleoedd sy'n fwy 'masnachol safonol', h.y. gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer, yn ogystal â chyfleusterau o ansawdd uwch;

- Yr angen i wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg i ennyn diddordeb pobl, h.y. trwy ddyfeisiau symudol;
- Economi fwy cymysg o ddarparwyr cyfleusterau, a hynny o ganlyniad i weithredwyr a chwmnïau cymdeithasol a buddiannau cymunedol di-elw sy'n dod i'r amlwg, ochr yn ochr â sector masnachol sy'n newid yn barhaus;

- Mae angen i gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yn y dyfodol fod yn fwyfwy "cyfleus ar gyfer dulliau byw", er enghraifft:
  - Chwaraeon Hawdd eu Chwarae, e.e. "Futsal" a chynghreiriau 5 bob ochr; pêl-rwyd a hoci - cyfranogiad cymdeithasol ar gyfer oedolion; rygbi tag mewn parciau a gemau timau bach sy'n hawdd eu trefnu ac yn hawdd cymryd rhan ynddynt;
  - gweithgareddau ffitrwydd yn yr awyr agored y gall unigolion gymryd rhan ynddynt yn rhwydd pan fo hynny'n fwyaf cyfleus iddynt, h.y. mewn lleoliadau cerdded, loncian a beicio diogel (mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eisoes yn cefnogi nifer o ddigwyddiadau sy'n helpu i ymateb i'r galw hwn, h.y. digwyddiadau Parkrun a beicio, ac ati).

**Mae angen i gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yn y dyfodol fod yn fwyfwy "cyfleus ar gyfer dulliau byw".**

- **Pobl Ifanc – Edrych i'r Dyfodol**
  - Mae'r pecyn Insights gan Sport England (Awst 2014) yn amlygu pwysigrwydd chwilio am ffyrdd o estyn allan i bobl ifanc mewn modd effeithiol – maent wedi cael eu magu mewn amgylchedd sy'n gwbl wahanol i genedlaethau blaenorol – mae hyn yn golygu bod yn rhaid sicrhau newid, a hynny ddim ond er mwyn cynnal diddordeb ymhlith holl grwpiau'r oes newydd, h.y.:
    - Mae technoleg yn rhan annatod o fywydau pobl ifanc;
    - Mae angen i'r rhesymau dros gymryd rhan fod yn berthnasol i'w bywydau – yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, nid yr hyn sy'n bwysig i oedolion a gwneuthurwyr penderfyniadau. Mae pobl ifanc yn eu harddegau hefyd yn edrych yn gynyddol ar fanteision dulliau byw egnïol mewn perthynas ag edrych yn dda, yn ogystal ag o ran iechyd a ffitrwydd;
    - Mae cyfranogiad plant yn aml yn seiliedig ar yr hyn a gynigir iddynt yn yr ysgol, yn ogystal ag ar safbwyntiau rheini a ffrindiau. Pan fydd y dylanwadau hyn wedi peidio a'r dulliau byw wedi newid, bydd lefelau gweithgarwch corfforol yn dechrau gostwng;



- **Edrych i'r Dyfodol**
  - Bydd angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili adolygu ac addasu ei rôl unigryw er mwyn ymateb i'r llu o gyfleoedd amgen, ac sy'n cystadlu â'i gilydd, sydd ar gael;
  - Er mwyn cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn sylweddol, bydd angen rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd sy'n ddeniadol i'r cynulleidfaoedd mwyaf. Lle bo'n bosibl, bydd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn gwell cyfleusterau ar gyfer y gweithgareddau cyfranogi mwyaf ac sy'n tyfu gyflymaf - y rheiny sydd wedi dod yn fwy poblogaidd wrth i bobl newid eu dulliau byw a dewis bod yn egnïol am resymau cymdeithasol a rhesymau sy'n gysylltiedig ag iechyd, h.y. ymarfer corff, ffitrwydd, dawns, cerdded, loncian, beicio, pêl-droed 5 bob ochr, ac ati;
  - Mae angen i gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion, yn enwedig yn ein hysgolion uwchradd, gael eu cynllunio mewn ffordd sy'n ysbrydoli cenhedlaeth o bobl ifanc sydd wedi ymrwymo i fod yn oedolion egnïol – ar hyn o bryd, nid yw llawer o gyfleusterau ysgolion yn bodloni'r disgwyliadau hyn;
  - Ochr yn ochr â lleoliadau gweithgareddau mewn cymunedau lleol, mae cyfleusterau chwaraeon arbenigol sydd wedi'u lleoli'n strategol yn bwysig i ddarparu hyfforddiant a chystadleuaeth ar y lefelau uwch, ac i wireddu'r weledigaeth ar gyfer 'cenhedlaeth o bencampwyr'. Fodd bynnag, er bod angen cyfleusterau arbenigol, nid eu hangen oes o reidrwydd ym mhob ardal awdurdod lleol;
  - Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn, byddwn yn mabwysiadu 'Cyfleusterau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Glasbrint ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol yng Nghymru'. (Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru [Mawrth 2016]).

**Er mwyn cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn sylweddol, mae angen rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd sy'n ddeniadol i'r cynulleidfaoedd mwyaf.**



# HERIAU MAWR I'W GORESGYN

## HERIAU O RAN GWELLA IECHYD

- Ers dechrau Arolwg Iechyd Cymru, mae lefelau gordewdra wedi cynyddu ac ni fu fawr ddim tystiolaeth o newid mewn lefelau gweithgarwch corfforol. Mae adroddiadau'r arolwg wedi dangos y canlynol:
  - bod 58% o oedolion dros bwysau a 22% yn ordew;
  - bod gweithgareddau bob dydd 33% o oedolion yn gyfyngedig oherwydd problemau iechyd neu anabledd;
  - mai dim ond 29% o oedolion sydd wedi'u cofnodi'n gorfforol egnïol, ond mae mwy o ddynion na menywod yn gorfforol egnïol, er bod hyn yn lleihau gydag oedran;
  - nad yw tua 1/3 yr oedolion yn gorfforol egnïol o gwbl.
- Mae lefelau isel o weithgarwch corfforol, ynghyd ag arferion bwyta gwael, yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o ordewdra.
- Mae yna nifer sylweddol fwy o achosion o iechyd gwael a lefelau isel o weithgarwch corfforol mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog.
- Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod anweithgarwch corfforol yn costio tua £650,000,000 bob blwyddyn i Gymru.
- Er gwaethaf y tueddiadau hyn, mae 'Creu Cymru Egnïol' yn datgan bod gweithgarwch corfforol yn cynnig nifer o fanteision o ran iechyd a lles meddwl hefyd, yn ogystal ag iechyd a lles corfforol, h.y.:
  - mae'r risg o ddatblygu clefydau cronig difrifol, er enghraifft clefyd y galon, diabetes a rhai canserau, hyd at 50% yn llai;
  - mae'r o risg o farw cyn pryd 20-30% yn llai.

- **Edrych i'r Dyfodol**
  - mae ymyraethau cymunedol targededig, a chanolfannau iechyd a ffitrwydd dan do ac awyr agored, hygyrch/lleol cost isel yn fwy tebygol o fod yn ddeniadol i fenywod a chyfranogwyr sydd wedi ymddieithrio, ac y mae'n anodd eu hannog i fabwysiadu dulliau byw mwy egnïol.

## HERIAU ARIANNOL MAWR

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eisoes wedi gwneud arbedion sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf - dros £82,000,000, ond bydd angen gwerth dros £34,000,000 yn ychwanegol o arbedion yn ystod y tair blynedd nesaf.
- Ar y cyfan, nid yw'n ofyniad statudol bod llywodraeth leol yn darparu cyfleusterau chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol, ac er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i gynnal gwasanaethau rheng flaen, mae'n cydnabod bod angen i bethau newid.
    - Rhaid i'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden sicrhau arbedion dros gyfnod y Strategaeth hon.

- **Edrych i'r Dyfodol**
    - Yn rhan o'r cynnig i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn y dyfodol, bydd angen gwneud defnydd mwy effeithiol o'n cyfleusterau cymunedol niferus;
    - Mae'r Strategaeth hefyd yn cyflwyno achos dros resymoli, gan alluogi i rai arbedion gael eu defnyddio ar gyfer buddsoddi, ochr yn ochr ag arloesi a thrawsnewid.

**Yn rhan o'r cynnig i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn y dyfodol, bydd angen gwneud defnydd mwy effeithiol o'n cyfleusterau cymunedol niferus.**



## HERIAU O RAN CYFLEUSTERAU ADEILEDIG

- Mae gan y Cyngor ormod o gyfleusterau gwahanol, gan gynnwys canolfannau hamdden, ac mae llawer ohonynt yn hen ac yn amrywio o ran ansawdd, a llawer o waith cynnal a chadw yn ofynnol - mae yna angen am lai o ddarpariaeth, ond darpariaeth o well ansawdd. Mae'r tabl gyferbyn yn cynnwys rhestr gryno o'r 500+ o fannau chwaraeon a gweithgarwch corfforol gwahanol sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Nododd adolygiad annibynnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o Ganolfannau Hamdden yn 2014 hefyd yr angen i resymoli'r canolfannau hamdden a reolid ar wahân.
- Mae 8 o'r 10 o ganolfannau hamdden ar safleoedd Ysgolion Uwchradd ac yn cael eu defnyddio gan yr ysgolion yn ystod y dydd. Mae'r defnydd hwn yn cael ei sybsideiddio'n sylweddol trwy gyllideb Chwaraeon a Hamdden. Mae gan bedair ysgol uwchradd gyfleusterau hamdden strategol lle nad yw unrhyw ddefnydd cymunedol yn cael ei reoli gan y Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden.
- Mae cyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol priodol ar safleoedd Ysgolion Uwchradd, sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau Cwricwlaidd ac Allgwricwlar, yn ofynnol - lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r rhain gael eu rheoli fel eu bod ar gael at ddefnydd y gymuned y tu allan i oriau ysgol.

Tabl 1: Rhestr Gryno o'r Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden Egnïol

| Cyfleusterau Lle y Gellir Gwneud Gweithgarwch Corfforol | Cyfanswm Nifer y Lleoedd |
|---|---|
| **Dan Do** | |
| Neuaddau Chwaraeon | 15 |
| Canolfannau Cymunedol | 50 |
| Canolfannau Ieuenctid | 20 |
| Pyllau Nofio | 8 |
| Ysgolion Cynradd, h.y. neuaddau | 80 |
| **Awyr Agored** | |
| Caeau Glaswellt Ffug (ATP)<br>Math 1: Glaswellt byr, ar sail o dywod, sy'n fwy addas ar gyfer gemau hoci<br>Math 2: Caeau '3G' o laswellt hirach, gyda mewnlenwadau o rwber, sy'n fwy addas ar gyfer gemau pêl-droed a rygbi | 16<br>Math 1: 7<br>Math 2: 9 (2@COSE) |
| Parciau Gwledig | 6 |
| Llochesau Ieuenctid | 21 |
| Meysydd Chwarae (ac eithrio caeau ysgolion cynradd) | 104 |
| Mannau Chwarae Aml-ddefnydd | 25 |
| Parciau Sglefrio | 9 |
| Waliau Cicio | 10 |
| Caeau Pêl-droed a Rygbi Glaswellt | 116 |
| Lawntiau Bowlio | 20 |
| Meysydd Criced | 9 |
| Cyrtiau Tenis | 18 |
| | 500+ |

- Mae mwyafswm buddsoddiad y Cyngor (tua 70%) mewn 'Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden' yn cael ei lyncu gan gostau rhedeg cyfleusterau hamdden traddodiadol, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhedeg mwy o Ganolfannau Hamdden nag unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru.
- Mae'r Fwrdeistref Sirol yn gwario mwy nag unrhyw awdurdod arall yng Nghymru ar gostau cynnal a chadw Canolfannau Hamdden - dros £1 filiwn y flwyddyn:
  - Mae'r cymhorthdal fesul unigolyn yn fwy na £1.50 - er mwyn cysoni ag ardaloedd eraill, dylai'r ffigur hwn fod yn llai na £1-£1.20 - ni ellir cyflawni hyn heb resymoli a moderneiddio;
  - Mae yna atebolrwydd buddsoddi cyfalaf sylweddol oherwydd oedran y canolfannau hamdden – dros £3 miliwn ar hyn o bryd;
  - Mae yna hefyd angen am gyllideb cyfalaf i fuddsoddi mewn cyfarpar newydd, er enghraifft ystafelloedd ffitrwydd modern, beiciau spin a chaeau 3G newydd, sy'n cynyddu lefelau defnydd yn dilyn buddsoddiad.
- Mae adroddiadau ar sylwadau cwsmeriaid hefyd wedi nodi'r angen i wella, h.y. 'mae angen uwchraddio'r ystafelloedd newid'; 'mae'r ganolfan yn edrych wedi dyddio erbyn hyn'; ac mae'r angen am newid, o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, hefyd yn cael ei gydnabod.
- Yn gyffredinol, ledled Cymru, mae llai na 30% o'r boblogaeth sy'n oedolion yn ymweld â chanolfan hamdden, ac nid yw llawer o Ganolfannau Hamdden y Fwrdeistref Sirol yn denu rhagor o ddefnyddwyr – yn hanner ohonynt mae'r niferoedd hyn yn lleihau. Dim ond tair canolfan sydd wedi'u lleoli yn strategol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili – sy'n denu dros 250,000 o ymweliadau y flwyddyn, gyda'r mwyafrif yn gwasanaethu llai na 100,000 o ymweliadau bob blwyddyn.

- **Edrych i'r Dyfodol**
  - Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn mynd ati i fabwysiadu 'Cyfleusterau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol – Glasbrint ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol yng Nghymru', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ym mis Mawrth 2016, a fydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yn y dyfodol. Bydd hyn yn ystyried:
    - anghenion cenedlaethau'r dyfodol;
    - yr angen am amgylcheddau dysgu ysbrydoledig ar gyfer plant a phobl ifanc ar safleoedd ysgolion;
    - yr angen i fuddsoddi mewn cyfleusterau gwell eu hansawdd, sy'n fwy addas i'r diben, ac sydd wedi'u lleoli'n strategol, yn y dyfodol;
    - yr angen i resymoli nifer presennol y cyfleusterau gwahanol nad ydynt yn addas i'r diben mwyach nac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a hynny yng nghyd-destun yr holl gyfleusterau eraill sy'n bodoli ar gyfer gweithgarwch egnïol, er enghraifft canolfannau cymunedol, ysgolion cynradd, canolfannau ieuenctid, parciau awyr agored, ac ati;
    - diffinio'r disgwyliadau ar gyfer y dyfodol, mewn perthynas â rhesymoli cyfleusterau, o ran darpariaeth dŵr.

## HERIAU ERAILL O RAN CYFLEUSTERAU – SICRHAU BOD YR HOLL AMWYNDERAU A CHYFLEOEDD CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL YN CAEL YR EFFAITH FWYAF POSIBL

### Caeau Chwaraeon Awyr Agored

- Mae caeau chwaraeon glaswellt ledled y fwrdeistref sirol hefyd yn creu heriau ar gyfer y dyfodol. Mae'r newid yn yr hinsawdd a chyllidebau sy'n lleihau yn creu her gynyddol o ran cynnal a chadw'r cyfleusterau hyn, ac mae buddsoddiad cyfalaf mewn systemau draenio gwell neu newydd yn bwysig er mwyn helpu i oresgyn materion o ran ansawdd y caeau. Mae cyfnodau hir o dywydd gwlyb wedi golygu bod y cyfleusterau pwysig hyn, sy'n gwasanaethu'r chwaraeon mwyaf, yn bygwth lefelau gweithgarwch yn y dyfodol.
- At hynny, mae llai na 30% o gost cynnal a chadw'r caeau glaswellt yn cael ei hadennill trwy incwm, a hynny o ganlyniad i lefelau isel y defnydd y mae modd ei gynnal ar y caeau glaswellt.
- Gyda'i gilydd, mae yna dros 120 o gaeau chwaraeon, 20 o lawntiau, 9 maes criced a nifer o gyrtiau tennis, mwy nag unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru. Mae yna hefyd nifer mawr o glybiau pêl-droed a rygbi - dros 130 ohonynt - yn dibynnu ar y cyfleusterau hyn. Fodd bynnag, mae nifer o'r clybiau hyn yn fach ac yn 'nomadaidd', ac yn dibynnu ar fynediad i gaeau glaswellt gwahanol, ac, yn aml, o ansawdd gwael. Ar y llaw arall, mae clybiau sy'n berchen ar gyfleusterau, neu sy'n eu prydlesu, yn gallu buddsoddi mwy o amser ac adnoddau i gynnal a chadw eu caeau i safon uwch, ac yn gallu denu aelodau, cynhyrchu incwm, a dod yn glybiau cymunedol cryfach yn haws.
- Yn ogystal â'r caeau glaswellt naturiol, mae yna 16 o gaeau glaswellt ffug – unwaith eto, mwy nag unrhyw ardal arall yng Nghymru. Mae naw o'r caeau hyn yn arwynebau pêl-droed/rygbi 3G – gall cae 3G maint llawn â llifoleuadau ddarparu'r un lefel o ddefnydd â phum cae glaswellt.
    - Wrth edrych i'r dyfodol, mae caeau 3G Glaswellt Ffug y Dyfodol yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth caeau awyr agored yn y dyfodol - maent yn
    - darparu gwasanaeth o safon gyson, a hynny ym mhob tywydd;
    - Mae yna achos dros gael mwy o gaeau 3G wedi'u lleoli'n strategol i gefnogi'r ddarpariaeth caeau glaswellt – gan ystyried hefyd y potensial i fanteisio i'r eithaf ar gyfleusterau ysgolion;
    - Dylai dulliau gweithredu ar gyfer y dyfodol gynnwys cefnogi clybiau i chwarae mwy o ran yn y gwaith o reoli a chynnal a chadw caeau a phafiliynau chwaraeon. Byddai hyn yn helpu i greu gwell cyfleusterau, yn ogystal â chlybiau cymunedol cryfach, a mwy cynaliadwy;
    - Dylai fod o leiaf un cae 3G ar bob safle ysgol uwchradd, ynghyd â phartneriaeth chwaraeon gymunedol sy'n gwarantu defnydd y tu allan i oriau ac yn creu hybiau ar gyfer clybiau chwaraeon.

## MANTEISIO AR ALLU CYMUNEDAU I DDEFNYDDIO CYFLEUSTERAU YSGOLION

- Wriedir i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol helpu i greu cyfleusterau chwaraeon a dull byw egnïol sy'n 'addas ar gyfer y dyfodol' yng Nghymru. Disgwylir i fuddsoddiad sicrhau:
  - Amgylcheddau dysgu sy'n cefnogi gwelliant a gwell deilliannau addysg, gan gynnwys iechyd a lles;
  - Gwell arbedion ac effeithlonrwydd trwy wneud gwell defnydd o adnoddau, gan gynnwys defnydd cymunedol;
  - Cyfleusterau cynaliadwy sy'n helpu i leihau costau ac olion traed carbon.
  - Yn olaf, mae hon yn fwy na rhaglen adeiladu - bwriedir i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif effeithio ar ddeilliannau dysgu yn ogystal â chanlyniadau iechyd a lles, a hynny ar lefel gyhoeddus a chymunedol.
- Mae'r strategaeth hon yn cydnabod pwysigrwydd ysgolion fel rhan annatod o gyfleusterau chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol cymunedol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae yna anghysondeb o ran gallu'r gymuned ehangach i ddefnyddio cyfleusterau ysgolion.
- **Edrych i'r Dyfodol**
  - Bydd y Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden a'r Gwasanaethau Addysg yn pennu cydweledigaeth i gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u pennu yn y strategaeth hon o ran gweithgarwch corfforol iach, yn ogystal â diwallu anghenion ysgolion a chymunedau. Bydd hyn yn llywio cytundeb cyd-ddefnyddio cadarn, sydd â blaenoriaethau a chanlyniadau cadarn, a gefnogir gan fodelau ariannu cynaliadwy.

**Mae'r strategaeth hon yn cydnabod pwysigrwydd ysgolion fel rhan annatod o gyfleusterau chwaraeon a hamdden egnïol cymunedol yn y dyfodol.**



## AMWYNDERAU CHWARAE

- Mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili 178 o gyfleusterau "chwarae" gwahanol, gan gynnwys mannau chwarae ag offer sefydlog, waliau cicio, Mannau Chwarae Aml-ddefnydd, parciau sglefrio, ac ati. Llywodraethir darpariaeth o'r fath gan ddyletswyddau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru, ac ymdrinnir â hi ar wahân mewn strategaethau a chynlluniau pwrpasol.



## PARCIAU AWYR AGORED A'R AMGYLCHEDD AWYR AGORED NATURIOL

- O blith y 42% o'r boblogaeth sy'n 'dwlu ar chwaraeon' yng Nghaerffili, yn ôl Chwaraeon Cymru, mae'r mwyafrif ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynhelir mewn cyfleusterau lle nad oes angen pwll nofio neu neuadd chwaraeon strategol.
- Mae pobl yn mwynhau lefel uchel o weithgarwch corfforol mewn amrywiaeth eang o amgylcheddau, Sy'n amrywio o gefn gwlad i briffyrdd, llwybrau a llwybrau ceffylau, a ddefnyddir i gerdded, beicio a loncian.
- Mae'r Map Integredig Teithio Llesol yn cynnwys y llwybrau cerdded a beicio hygyrch ar draws y fwrdeistref sirol ac mae'n cysylltu â Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol Sustrans. Ategir hyn gan hyfforddiant Kerbcraft a Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol, gan ddarparu a chefnogi plant yn ddiogel i fyw bywydau mwy cynaliadwy ac iach.
- Mae'r adnoddau naturiol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol.
- Mae ganddi nifer mawr o ardaloedd cefn gwlad o ansawdd uchel, yn ogystal â pharciau ffurfiol mwy traddodiadol, gyda phump ohonynt wedi ennill achrediad y faner werdd.
- Mae yna lawer iawn o fannau agored ac ardaloedd cefn gwlad – mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn rheoli parciau, hawliau tramwy, gwarchodfeydd natur/safleoedd bioamrywiaeth a reolir, a rhwydwaith camlesi. Mae yna hefyd lawer iawn o fannau agored ac ardaloedd cefn gwlad heb eu rheoli. Bydd cyfle i gysylltu cyflawni canlyniadau'r strategaeth hon â'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd s y'n dod i'r amlwg er mwyn cefnogi'r rhwydwaith o fannau gwyrdd cydgysylltiedig i wneud y defnydd gorau ohonynt ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol.
- Mae'r Cyngor hefyd yn darparu Gwasanaeth Anturiaethau Awyr Agored sy'n cefnogi amrywiaeth o weithgareddau awyr agored, yn ogystal â chynllun Gwobr Dug Caeredin.
- Er eu bod yn bwysig i'r strategaeth hon, ymdrinnir â'r ardaloedd hyn o ddarpariaeth ar wahân mewn cynlluniau a strategaethau pwrpasol, sydd wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol.



**Mae'r adnoddau naturiol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol.**

# YR HYN Y MAE ANGEN EI WNEUD

**1. Polisi Corfforaethol**

a. Wrth fabwysiadu'r strategaeth hon, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cydnabod bod chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yn gwneud cyfraniad sylweddol at dulliau byw iach, addysg, yr economi ac adfywio ledled y Fwrdeistref Sirol.

b. Gan gydnabod nad yw'n ymarferol darparu 'yr un gwasanaeth i bawb' mwyach, bydd rôl unigryw y Cyngor yn canolbwyntio ar y canlynol:

   i. Gweithio gydag eraill i fanteisio i'r eithaf ar yr holl gyfleoedd, cyfleusterau, cyllid a phobl sydd ar gael;

   ii. Gwneud gwell defnydd, a defnydd mwy arloesol, o'r amrywiaeth ehangaf posibl o gyfleusterau gweithgarwch corfforol dan do ac awyr agored sydd ar gael ym mhob cymuned;

   iii. Ymyraethau arbenigol, o ran dulliau ac mewn lleoedd, a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar iechyd hirdymor cynulleidfaoedd targed â blaenoriaeth, a lle nad oes yna unrhyw gymorth arall o'r fath ar gael.

c. Bydd dull gweithredu ar y cyd gydag ysgolion tuag at chwaraeon a hamdden egnïol yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau un canlyniad cyffredin, sef y bydd mwy o bobl ifanc yn dod yn oedolion egnïol drwy brofiadau dysgu mwy ysbrydoledig, gan sicrhau, ar yr un pryd, y manteisir i'r eithaf ar allu cymunedau i ddefnyddio amgylcheddau dysgu y tu allan i oriau ysgol. Bydd hyn yn cynnwys cytundeb cyd-ddefnyddio newydd, addas i'r diben, cadarn ag, ysgolion, a fydd yn cynnwys blaenoriaethau a chanlyniadau clir.

**2. Cyfleusterau**

a. Er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r canlynol:

   i. Glasbrint Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Egnïol (Gweler Tabl 2), a fydd yn llywio'r holl gyfleusterau gweithgarwch corfforol, yn ogystal â'r defnydd a wneir ohonynt, ledled y Fwrdeistref Sirol;

   ii. Matrics penderfyniadau ar gyfer pennu'r ddarpariaeth cyfleusterau Hamdden strategol a reolir yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden (Gweler Tabl 3);

**Eir ar drywydd cyd-strategaeth chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol ac ysgolion er mwyn cyflawni un canlyniad a rennir, sef bod mwy o bobl ifanc yn dod yn oedolion egnïol trwy gael mwy o brofiadau dysgu ysbrydoledig.**

i. Strategaeth “buddsoddi i arbed”, gan alluogi rhai cyfleusterau i gael eu rhesymoli er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau mwy cynaliadwy yn y dyfodol, a hynny ochr yn ochr â buddsoddi rhai arbedion a wnaed i wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cwsmeriaid mewn lleoliadau strategol, yn ogystal ag mewn cymunedau lleol.

Tabl 2: Glasbrint ar gyfer Cenedlaethau’r Dyfodol – Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden Egnïol

| Y Fframwaith Cyfleusterau | Camau Gweithredu |
|---|---|
| **Lefel 1 y Fframwaith Cyfleusterau** Asedau cymunedol a chyfleusterau clybiau sy’n hollbwysig i ddiwallu anghenion o ran chwaraeon a gweithgareddau ar garreg y drws – gan alluogi dulliau byw egnïol beunyddiol, h.y. yr awyr agored ar gyfer ymarfer corff gwyrdd, neuaddau cymunedol amlddefnydd, clybiau chwaraeon, ysgolion cynradd, parciau cymunedol, canolfannau cymunedol, canolfannau iechyd, llyfrgelloedd, a neuaddau eglwysi a phentrefi. | Dylai unrhyw gyfleuster chwaraeon a hamdden egnïol a ddarperir yn y dyfodol ystyried yr holl asedau hyn a’u potensial i ddarparu hybiau gweithgarwch corfforol sy’n hygyrch yn lleol, gan dargedu cymunedau difreintiedig yn benodol. Dylai’r ddarpariaeth gynnwys cyfleoedd i gyd-leoli a chyd-reoli, a hynny er mwyn cynyddu cynaliadwyedd amwynderau cymunedol i’r eithaf. |
| **Lefel 2 y Fframwaith Cyfleusterau** Cludiant strategol i gyfleusterau cymunedol ehangach a leolir ar safleoedd addysg/ysgolion uwchradd neu golegau, a hynny er mwyn cynyddu’r defnydd a wneir ohonynt a sicrhau gwerth am arian, ac oherwydd bod darparu cyfleusterau gweithgarwch corfforol ysbrydoledig o ansawdd da yn ofyniad gorfodol ar gyfer pob ysgol. | Dylai’r polisi strategol bennu disgwyliad clir y bydd cyfleusterau ysgolion (adeiladau a chaeau) yn y dyfodol yn darparu mannau priodol ac addas i’r diben ar gyfer gweithgarwch corfforol, addysgu a gweithgareddau hamdden, yn ogystal â chyfrannu at yr arlwy chwaraeon a hamdden egnïol cymunedol, gan gynnwys datblygu modelau ar gyfer rheoli canolfannau clybiau chwaraeon ysgolion/cymunedol. |
| **Lefel 3 y Fframwaith Cyfleusterau** tyniadau chwaraeon neu hamdden “masnachol” strategol, mawr i dwristiaid, sydd o bwysigrwydd rhanbarthol neu genedlaethol. Byddai hyn yn cynnwys darparu canolfannau hamdden yn ne-orllewin y fwrdeistref sirol, a’r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon. | Mabwysiadu strategaeth ar gyfer buddsoddi mewn chwaraeon a hamdden egnïol sy’n darparu atyniad hamdden masnachol gynaliadwy yn ne-orllewin y fwrdeistref, a hynny mewn ymateb i’r twf sylweddol o ran tai newydd. |

**Dylai’r polisi strategol bennu disgwyliad clir y bydd cyfleusterau ysgolion (adeiladau a chaeau) yn y dyfodol yn darparu mannau priodol ac addas i’r diben ar gyfer gweithgarwch corfforol, addysgu a gweithgareddau hamdden...**

**Tabl 3: Matrics Asesu Anghenion Canolfannau Hamdden Strategol**

| Meini Prawf Asesu | Ffactorau Mesur |
|---|---|
| **Dadansoddiad o'r effaith**<br>**Nifer yr ymwelwyr** | 1. Dros 250 mil o ymweliadau y flwyddyn<br>2. Defnydd yn ystod y dydd a rennir gyda darparwr addysg |
| **Angen**<br>**Canolfan poblogaeth**<br>**Mynediad – teithio i'r lleoliad; llwybrau cludiant cyhoeddus; maes parcio**<br>**Dim cyfleusterau sy'n cystadlu** | 1. Maes parcio hygyrch, prif lwybrau cyhoeddus<br>2. Dim cyfleusterau masnachol/cyfleoedd cymunedol/ysgolion lleol yn cystadlu |
| **Yn addas i'r diben**<br>**Yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**<br>**Dyluniad ar gyfer yr 21 Ganrif**<br>**Ysgol ysbrydoledig** | 1. Amrywiaeth o amwynderau ar gyfer yr 21 ganrif - ffitrwydd, dawns, stiwdio gweithgareddau, 3G, sba<br>2. Yr unig gyfleuster annibynnol strategol mewn cyrchfan ymwelwyr/canolfan poblogaeth |
| **Costau rhedeg**<br>**Cymhorthdal fesul defnyddiwr/cynaliadwyedd** | 1. Cymhorthdal fesul defnyddiwr yn llai na £1-£1.20 |

a. Bydd rhesymoli'r cyfleusterau yn arwain at bedair canolfan hamdden amlwasanaeth, strategol, o ansawdd uchel a reolir gan Wasanaethau Chwaraeon a Hamdden yr awdurdod. Bydd y pedair canolfan strategol wedi'u lleoli yn Rhisga, Caerffili a Threcelyn, ac un yn ardaloedd Bargod/Aberbargod i wasanaethu gogledd y fwrdeistref sirol. Felly, disgwylir y byddai'r canolfannau hamdden eraill naill ai'n dod o dan reolaeth ysgolion (os ydynt yn gyfleusterau cyd-ddefnydd wedi'u lleoli ar safle'r ysgol, yn amodol ar gymeradwyaeth y corff llywodraethu), neu'n cau yn gyfan gwbl. Rhoddir ystyriaeth ofalus i gyfleoedd ar gyfer darpariaeth amgen cyn tynnu unrhyw gyfleusterau yn ôl.

b. Bydd y Cyngor yn egluro'r hawl i gael gwersi nofio yn y dyfodol ac yn cefnogi'r rhesymeg dros raglen gynaliadwy o ddarpariaeth dŵr, gan hefyd lywio'r angen a chwmpas cyfleusterau dyfrol yn y dyfodol.

c. O ran Cyfleusterau Awyr Agored, bydd y Cyngor yn:

    i. datblygu cynllun i wella a chynyddu effaith mannau awyr agored, caeau chwarae, parciau a mannau hamdden anffurfiol, gan ddefnyddio buddsoddiad sy'n deillio o enillion cynllunio lle bo hynny'n bosibl

    ii. manteisio ar gyfleusterau 3G at ddefnydd ysgolion, cymunedau a chystadlaethau ar y penwythnosau, a hynny ochr yn ochr â'r rhwydwaith caeau glaswellt, gan helpu i ddatblygu clybiau chwaraeon cryfach.

**1. Rhaglenni ymyrraeth ac allgymorth chwaraeon a hamdden egnïol**

Bydd y Cyngor yn parhau i:

a. Gydweithio ag ysgolion i gymell plant a phobl ifanc i fabwysiadu dulliau byw iachus, a'u cynnal, a hynny trwy brofiadau gweithgarwch corfforol ysbrydoledig tra'u bod ym myd addysg;

b. Darparu cymorth targededig i helpu i gadw pobl hŷn yn egnïol ac yn rhan o'u cymunedau lleol, gan helpu sefydliadau lleol i gefnogi pobl hŷn/llai annibynnol i ddilyn bywydau iach trwy weithgareddau corfforol hygyrch, cymdeithasol, dwyster isel;

c. Annog a chefnogi ffederasiynau clybiau i rannu adnoddau, gan helpu i greu clybiau chwaraeon cryfach, mwy cynaliadwy a llwyddiannus;

d. Darparu cymorth hanfodol i gefnogi llwyddiant ym myd y campau;

e. Darparu ymyraethau arbenigol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd targededig lle mae yna dystiolaeth o angen, a lle nad oes yna unrhyw ddarparwr arall;

f. Arwain y rhaglen gydweithredol ranbarthol, Active Gwent, i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a hynny mewn ffordd sy'n sicrhau'r effaith fwyaf yng Nghaerffili.

**Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio ag ysgolion i gymell plant a phobl ifanc i fabwysiadu dulliau byw iachus, a'u cynnal...**



Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# STRATEGAETH CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL 2019-2029

